**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Mai 2021 drwy gynhadledd fideo, yn cychwyn am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, Mrs M. A. Walker a Miss C. L. Williams.

Gareth Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus - Dirprwy Glerc y Dref

## 1. <u>CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU</u>

Cychwynnodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsay, y cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn dymuno cymryd rhan, mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. A. Ball a Miss S. L. Roberts.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y cynghorydd newydd ei ethol ar gyfer ward Brynhedydd, Mrs M. A. Walker a'r holl westeion dinesig a phersonol.

## 2. <u>ETHOL MAER A SEFYDLU</u>

Diolchodd y Cynghorydd Chard i'w chyd-gynghorwyr a swyddogion y Cyngor Tref am eu cefnogaeth drwy gydol ei dwy flynedd yn y swydd, a oedd wedi ei ymestyn am flwyddyn oherwydd y pandemig Covid-19.

Dros y ddwy flynedd, bu nifer o uchafbwyntiau. Roedd wedi mwynhau'n fawr ei chyfnod fel Maer y Rhyl ac roedd nawr yn trosglwyddo'r awennau!

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd y maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast bod y Cynghorydd Mrs D. L. King yn cael ei henwebu.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd King.*

Gwisgodd y Cynghorydd King gadwyn y swydd a darllenodd yn uchel a llofnodi'r datganiad swydd.

Diolchodd y Maer i'w chynigydd a'i heilydd am eu henwebiadau a'u geiriau caredig a chadarnhaodd mai ei Chymar fyddai ei chyd-gynghorydd tref, y Cynghorydd Pete Prendergast ac roedd y Tad Charles Ramsay yn garedig wedi cytuno bod yn Gaplan iddi nes byddai'n gadael y Rhyl am Ddolgellau yn

fuan. Dywedodd y Cynghorydd King ei bod yn edrych ymlaen at y 12 mis nesaf a gweithio i gefnogi'r gymuned, ac mai ei helusennau fyddai Cymdeithas Alzheimer ac RNLI y Rhyl.

Yna gwisgodd y Cynghorydd Prendergast fathodyn y swydd.

Ar ran y Cyngor Tref diolchodd y Cynghorydd King i'r Maer a oedd yn ymddeol am ei gwasanaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chyfeiriodd at arwyddlun y dref, y medal dinesig a'r blodau roedd y Cynghorydd Chard wedi eu derbyn ac a oedd oll yn cael eu harddangos y tu ôl iddi yn ei chartref.

**3. ETHOL DIRPRWY FAER**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer ethol Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/22.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones bod y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine yn cael ei henwebu.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd McAlpine.*

Cyflwynodd y Maer gadwyn y swydd i'r Cynghorydd King a'i gwahodd i lofnodi datganiad y swydd.

Wedi gwneud hyn, diolchodd y Dirprwy Faer i aelodau'r cyngor am eu henwebiadau a dywedodd mai ei Dirprwy Gymar fyddai Ms Charlotte Taylor-Smith.

Gwisgodd Ms Taylor-Smith fathodyn y swydd.

Yn ystod y drafodaeth, holodd Aelod os oedd yn briodol i Gynghorwyr fynychu'r cyfarfod gyda'r camera wedi ei ddiffodd. Cadarnhaodd Clerc y Dref bod hyn yn cael ei ganiatau.

**4. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 21ain Ebrill 2021 - Rhifau Cofnod 84-93

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir*

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Ebrill 2021 - Rhifau Cofnod 33-35

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 5ed Mai 2021 - Rhifau Cofnod 36-38

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 5ed Mai 2021 - Rhifau Cofnod 34-47

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs P. M. Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cymeradwyo ar gyfer gweithredu.*

## 5. CYFLWYNIAD I'R TAD CHARLES RAMSAY

Cyflwynodd y Maer arwyddlun y dref yn cydnabod ei wasnaeeth i'r Rhyl dros y blynyddoedd a dywedodd y byddai'n cael ei golli'n fawr iawn, ac y byddai'n fudd mawr i Ddolgellau er yn golled i'r Rhyl.

Dywedodd y Tad Charles ei fod yn ddiolchgar iawn a diolchodd i'r Cyngor Tref am yr arwyddlun ac yn wir am ei gyfranogiad gyda busnes y Cyngor Tref, lle'r oedd wedi gwneud cyfeillion hir-oes.

## 6. PENODI PWYLLGORAU/IS-BWYLLGORAU/LLYWODRAETHWYR YSGOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2021/22

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau a ddangoswyd yn yr atodlen (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penodiadau.*

## 7. ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast bod y Cynghorydd A. J. Rutherford yn cael ei benodi

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

## 8. ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley bod y Cynghorydd B. Mellor yn cael ei benodi.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Mellor.*

**9. ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast bod y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James yn cael ei phenodi

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Mullen-James.*

**10. ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams bod y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine yn cael ei phenodi.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd McAlpine.*

**[Gadawodd y Cynghorydd A. S. Johnson y cyfarfod i ddelio gyda mater personol]**

**11. ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL (CSG)**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor CSG ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James bod y Cynghorydd A. J. Rutherford yn cael ei benodi.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

**12. ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL(CSG)**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast bod y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James yn cael ei phenodi.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Mullen-James.*

**13. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau fel y dangoswyd yn yr atodlen (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penodiadau.*

## 14. DYNODI DYLETSWYDDAU A GYMERADWYWYD

Gofynnodd y Maer am gadarnhad bod presenoldeb gan gynrychiolwyr a benodwyd i'r canlynol:

- Hyfforddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau Sefydlog
- Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (a'r Pwyllgor Trafnididaeth Rhanbarthol cysylltiedig)
- Sir Ddinbych Gynaliadwy
- Grŵp Cyfeirio Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Presenoldeb Maer y Dref/Dirprwy Faer y Dref mewn Digwyddiadau Dinesig yn Siroedd Dinbych, y Fflint a Chonwy.

yn cael eu dynodi fel dyletswyddau cymeradwy.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast a ***PHENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r dyletswyddau cymeradwy.*

## 15. ATODLEN O GYFARFODYDD

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r atodlen o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022 fel y dangoswyd yn yr atodlen (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen.*

## 16. LLOFNODWYR

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r canlynol i lofnodi cyfrifon cyfredol a buddsoddi y cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021/2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast bod y llofnodwyr yn cael eu cadarnhau fel:

Y Maer a'r Dirprwy Faer fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Llawn
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r swyddogion canlynol:

Clerc y Dref
Dirprwy Glerc y Dref

Y Swyddog Cyllid

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r llofnodwyr.*

**17. EITEM YCHWANEGOL: DARPARWR YSWIRIANT Y CYNGOR**

Adroddodd Clerc y Dref bod darparwr y Cyngor Tref ar fin newid a gofynnodd am gael rhoddi awdurdod dirprwyedig i'r Is-bwyllgor Asesu Risg i benodi darparwr newydd erbyn diwedd mis Mai 2021.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod i weithredu i'r Is-bwyllgor Asesu Risg.*

**18. TERFYNU'R CYFARFOD**

Cyn i'r Maer derfynu'r cyfarfod, diolchodd y gwesteion dinesig a oedd yn bresennol i'r Maer am eu gwahodd i'r cyfarfod a dymuno'n dda iddi yn ei blwyddyn yn y swydd.

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: ……………………..